Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

Fideogynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Ionawr 2026

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

P Gareth Williams

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

O bell

Cyfarfod cyhoeddus

(13.30 - 14.05)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(13.30)

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalennau 1 - 2)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 - Papur 1 - Adroddiad drafft

Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd

2.1 SL(6)713 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2026

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd

2.2 SL(6)716 – Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026

[Rheoliadau]

[Memorandwm Esboniadol]

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 - 13.40)

Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd, neu'r hyn a elwid gynt yn weithdrefn negyddol

3.1 SL(6)706 – Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025

(Tudalennau 3 - 6)

[Rheoliadau]

[Memorandwm Esboniadol]

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 2 – Adroddiad drafft

LJC(6)-03-26 – Papur 3 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 17 Rhagfyr 2025

3.2 SL(6)707 – Rheoliadau Adeiladu (Gweithdrefnau Adeiladau Risg Uwch) (Cymru) 2025

(Tudalennau 7 - 11)

[Rheoliadau]

[Memorandwm Esboniadol]

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 4 – Adroddiad drafft [Cymraeg i ddilyn]

3.3 SL(6)708 – Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025

(Tudalennau 12 - 18)

[Rheoliadau]

Memorandwm Esboniadol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 5 – Adroddiad drafft [Cymraeg i ddilyn]

3.4 SL(6)715 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026

(Tudalennau 19 - 21)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 6 – Adroddiad drafft

Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, neu'r hyn a elwid gynt yn weithdrefn gadarnhaol ddrafft

3.5 SL(6)704 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Ty Gwydr (Diwygio) 2026

(Tudalennau 22 - 23)

Gorchymyn [Saesneg yn unig]

Memorandwm Esboniadol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 7 – Adroddiad drafft

3.6 SL(6)714 – Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

(Tudalennau 24 - 25)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 8 – Adroddiad drafft

3.7 SL(6)719 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

(Tudalennau 26 - 27)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 9 – Adroddiad drafft

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(13.40 - 13.45)

4.1 SL(6)711 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2025

(Tudalen 28)

Rheoliadau

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 10 – Adroddiad drafft

4.2 SL(6)712 – Gorchymyn Deddf Adeiladu 1984 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025

(Tudalen 29)

Gorchymyn

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 11 – Adroddiad drafft

5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.45 - 13.50)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

5.1 SL(6)703 – Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026

(Tudalennau 30 - 32)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 12 – Adroddiad

LJC(6)-03-26 – Papur 13 – Ymateb Llywodraeth Cymru

6 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

(13.50 – 13.55)

7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.55 – 14.00)

7.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

(Tudalennau 33 – 38)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 14 – Datganiad Ysgrifenedig gan Brif Weinidog Cymru Cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, 16 Ionawr 2026

LJC(6)-03-26 – Papur 15 – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru: Cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, 16 Ionawr 2026

LJC(6)-03-26 – Papur 16 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Adran Sicrwydd Ynni a Sero Net a Gweinidogion Cymru, 19 Ionawr 2026

LJC(6)-03-26 – Papur 17 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 20 Ionawr 2026

LJC(6)-03-26 – Papur 18 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, 22 Ionawr 2026

7.2 Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig a Darpariaeth Arbed) (Diwygio) 2026

(Tudalennau 39 – 40)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 19 – Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 21 Ionawr 2026

7.3 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Rheoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2026

(Tudalennau 41 - 42)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 20 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 22 Ionawr 2026

7.4 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2026

(Tudalennau 43 - 44)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 21 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2026

8 Papurau i'w nodi

(14.00 - 14.05)

8.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Is-ddeddfwriaeth

(Tudalen 45)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 22 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 21 Ionawr 2026

9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(14.05)

Cyfarfod preifat

(14.05 - 15.15)

10 Y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru): Trafod adroddiad Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

(14.05 - 14.10) (Tudalennau 46 - 50)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 - Papur 23 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

11 Is-ddeddfwriaeth a drafodwyd eisoes

(14.10 - 14.20) (Tudalennau 51 - 66)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 - Papur 24 - Papur [Saesneg yn unig]

12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seiberddiogelwch a Seiberwydnwch (Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth)

(14.20 - 14.30) (Tudalennau 67 - 82)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 - Papur 25 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2): Adroddiad drafft

(14.30 - 14.35) (Tudalennau 83 - 88)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 - Papur 26 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

14 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion

(14.35 - 14.45) (Tudalennau 89 - 97)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 - Papur 27 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

15 Adroddiad monitro

(14.45 - 14.55) (Tudalennau 98 - 119)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 - Papur 28 - Adroddiad Monitro [Saesneg yn unig]

16 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

(14.55 - 15.05) (Tudalennau 120 - 130)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 - Papur 29 - Papur [Saesneg yn unig]

17 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl

(15.05 - 15.15) (Tudalennau 131 - 142)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 - Papur 30 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
26 Ionawr 2026

SL(6)713 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gweithdrefn: Gweithdrefn annilysu'r Senedd

Mae'n ofynnol i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiadau galw i dalwyr trethi ar gyfer eiddo yn eu hardal sy'n atebol am drethi annomestig. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw o'r fath. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yn nodi'r set ragnodedig o eiriau ar gyfer y wybodaeth esboniadol y mae'n rhaid ei darparu i dalwyr ardrethi ochr yn ochr â hysbysiad galw.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud gwelliannau gweinyddol i'r wybodaeth esboniadol, er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau a fydd ar waith o 1 Ebrill 2026.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 13 Ionawr 2026

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2026

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
26 Ionawr 2026

SL(6)716 - Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026

Gweithdrefn: Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd

Mae rheoliad 5 o Reoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1719 (Cy. 186)) yn gwahardd gwerthu atchwanegiadau bwyd a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio fitaminau neu fwynau oni bai bod y fitamin neu'r mwyn hwnnw—

(a) wedi ei restru yn Atodlen 1 i Reoliadau Maethiad (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/651) ("Rheoliadau 2019");
(b) ar ffurf sydd wedi ei rhestru yn Atodlen 2 i Reoliadau 2019 ac sy'n bodloni'r meini prawf purdeb perthnasol.

Mae'r mwyn, magnesiwm, eisoes wedi ei restru yn Atodlen 1 i Reoliadau 2019. Mae Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026 yn -

(a) ychwanegu'r ffurf fwynol, magnesiwm L-threonad monohydrad ("y Sylwedd") at y rhestr yn Atodlen 2 i Reoliadau 2019;
(b) gosod meini prawf purdeb ar gyfer y Sylwedd.

Rhiant-Ddeddf: Rheoliadau Maethiad (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 13 Ionawr 2026

Yn dod i rym ar: 05 Mawrth 2026

SL(6)706 – Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n darparu bwyd a diod ar ddiwrnod ysgol i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion cynradd a gynhelir, pa un a ddarperir y bwyd a'r ddiod ar fangre ysgol ai peidio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r mathau o fwyd a diod y mae rhaid eu darparu ac na chaniateir eu darparu a pha mor aml y mae rhaid darparu bwydydd penodol neu ba mor aml na chaniateir darparu bwydydd penodol. Maent hefyd yn rhagnodi cynnwys ciniawau ysgol cyfartalog o ran egni a maethynnau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 fel mai dim ond i ysgolion uwchradd y byddant yn gymwys. Unwaith y bydd y newidiadau mewn grym, bydd Rheoliadau 2013 yn nodi safonau a gofynion maethol gorfodol ar gyfer bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn y diffiniad o "ysgol feithrin a gynhelir" yn rheoliad 2(1), mae cyfeiriadau at y termau "ysgol feithrin" ac "ysgol arbennig". Nodwn nad yw'r termau hyn wedi'u diffinio yn y Rheoliadau ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 2(6) fel y'u cynhwysir yn adran 20 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro ystyr y termau hyn yng nghyd-destun y Rheoliadau.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Er bod y Rheoliadau'n nodi'r gofynion a'r safonau ar gyfer darparu bwyd a diod perthnasol mewn ysgolion, gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio sut y bydd gweithredu'r Rheoliadau'n cael ei fonitro ac unrhyw ganlyniadau am beidio â chydymffurfio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddau bwynt adrodd.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
20 Ionawr 2026

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Gosod y Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion**
DYDDIAD	**17 Rhagfyr 2025**
GAN	**Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

Mae'n bleser gennyf gadarnhau fy mod wedi gosod y Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025 gerbron y Senedd heddiw. Bydd y Rheoliadau hyn yn:

- Cryfhau safonau ar gyfer bwyd a diod a ddarperir mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd a gynhelir ledled Cymru.
- Cefnogi mynediad at ddewisiadau iachach, cytbwys i ddysgwyr, gan sicrhau eu bod yn fwy cyson â'r canllawiau diweddaraf ar faeth.

Mae gosod y Rheoliadau hyn yn gam pwysig pellach tuag at wella iechyd a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru. Maent yn adlewyrchu proses o gydgynhyrchu rhwng partneriaid a ddechreuodd dros 12 mis yn ôl, ac mae o bwys eu bod yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf. Felly, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, awdurdodau lleol, ysgolion, a gweithwyr iechyd proffesiynol, a gyfrannodd eu barn. Mae eu sylwadau wedi bod yn amhrisiadwy.

Mae cynnig Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd eisoes yn gynnig trawsnewidiol, ac mae'r cynllun wedi darparu dros 57 miliwn o brydau bwyd ers mis Medi 2022. Mae'r safonau diwygiedig hyn yn codi'r safon ymhellach, gan wneud y mwyaf o effaith y cynllun trwy sicrhau safonau uwch a phrydau â gwerth maethol uwch. Mae'r ymdrechion hyn yn cyd-fynd â'n huchelgeisiau i fynd i'r afael â thlodi plant, lleihau anghydraddoldebau, a gwella cyrhaeddiad a lles.

Ar 10 Rhagfyr 2025 cyhoeddais am gynnydd i'r gyfradd a delir fesul Pryd Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, o £3.20 i £3.40. Mae hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth yr ydym yn ei roi ar ddarparu cynnig o safon yn wyneb costau cynyddol, ac mae'n helpu i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y dechrau gorau posibl.

Bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 31 Hydref 2026, gan ganiatáu digon o amser i ysgolion ac awdurdodau lleol baratoi at eu rhoi ar waith.

Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys testun llawn y Rheoliadau ar gael yma.

SL(6)707 – The Building (Higher-Risk Buildings Procedures) (Wales) Regulations 2025

Background and Purpose

These Regulations are made under powers conferred by the Building Act 1984, as amended by the Building Safety Act 2022. They apply specifically to Wales and are part of a suite of reforms aimed at improving building safety following the Grenfell Tower tragedy.

The primary aim of the Regulations is to establish a building control approval process specifically for higher-risk buildings.

The Regulations introduce a structured change control mechanism which aims to ensure that any design or construction changes are properly assessed, documented, and approved, maintaining the integrity of the original design and its safety features. The Regulations also mandate the creation and ongoing maintenance of the "golden thread" of building information - a digital record that supports informed decision-making and transparency throughout the building's life.

The Regulations require the reporting of any safety occurrences and establish processes for applying for, and issuing, both full and partial completion certificates. Mechanisms are also provided for the regularisation of unauthorised work in order to help bring non-compliant developments into alignment with legal requirements.

The Regulations also empower the Welsh Ministers to make determinations and hear appeals under section 30A of the Building Act 1984.

Procedure

Negative

The Regulations were made by the Welsh Ministers before they were laid before the Senedd. The Senedd can annul the Regulations within 40 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date they were laid before the Senedd.

Technical Scrutiny

The following 16 points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

1. **Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

In regulation 2(1), in the definition of "applicant", it notes that the definition applies "except where the context otherwise requires". It would be clearer and more helpful to the reader if it noted where in these Regulations a different meaning of "applicant" applies.

2. **Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

In regulation 2(1), the term "fire safety information" is defined with the meaning given by regulation 38(9) of these Regulations. However, regulation 2(1) gives the term that meaning for the whole of the Regulations but the definition in regulation 38(9) notes that the term only has that meaning "In this regulation". In addition, the term is also used in regulation 37(5) of these Regulations. Therefore, it is unclear where the definition of the term "fire safety information" applies in these Regulations.

3. **Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

In regulation 7(13), in the Welsh text, the different grammatical forms "a bennir" a "penodedig" are both noted for the definition of "specified". However, in regulation 24(11), only the term "penodedig" is noted for the definition of "specified" although both "a bennir" and "penodedig" are also used in the Welsh text of regulation 24. Therefore, the Welsh text is inconsistent in its approach as to whether all of the grammatical forms that have been used to express a defined term are noted or only a single grammatical form of the term.

4. **Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

In regulation 9(2) and (3), there is a varying between the use of "days" and the defined term "working days" when describing a period of time. In regulation 9(2) it refers to "At least 5 working days" but in regulation 9(3), it refers to "Within 5 days". These different descriptions also occur when describing the same period of time in regulation 17(2) and (3). Is the varying between the use of "days" and "working days" intentional in these descriptions?

5. **Standing Order 21.2(vii) – that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.**

In regulation 12(1)(e)(i), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "details of the intended use of each storey" but the meaning given by the Welsh text is "details of the proposed use of each storey". In this regard, the Welsh text is also inconsistent with the other provisions in these Regulations where "bwriadedig" has been used to express "intended" in the same context, but "arfaethedig" has been used to express "proposed".

6. **Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

In regulation 15(1)(a), it refers to the client's assessment in regulation 12(1)(d)(viii)(bb). However, there is no paragraph (viii)(bb) in sub-paragraph 12(1)(d). Should regulation 15(1)(a) refer to a different provision, for example, regulation 12(1)(e)(viii)(bb)?

7. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 18(2), at the beginning it notes that "Before any controlled change can be carried out, the client must ensure…". However, the word "can" appears to be referring to legal permission rather than only referring to a possibility. In which case, it should use "may" rather than "can".

8. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 27(4)(i), the reference is described as "(as except paragraph (bb))". Should this refer to "(paragraph (ii)(bb))"?

9. Standing Order 21.2(vii) – that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In regulation 31(1)(b)(ii), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "have access to the facility" but the meaning given by the Welsh text is "have access to the electronic facility". In this regard, the Welsh text is correct because "electronic facility" is a defined term that is noted in regulation 31(13).

10. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 31(13), it notes that both of the terms "electronic facility" and "golden thread information" are defined with a meaning "In these Regulations". However, the term "electronic facility" is only used in regulation 31, so it should be introduced as having a meaning "In this regulation". But the term "golden thread information" is also used in other regulations such as regulations 27 and 37, and Schedule 1. Therefore, the definition of "golden thread information" should be included in regulation 2(1) which is the general interpretation provision for terms used in these Regulations.

11. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 32(2), it notes that there are "incidents or situations that should be reported by the reporting person". As the word "should" appears to be referring to a legal obligation placed upon the reporting person, should the word "must" be used instead of "should"?

12. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 35(1), it notes that the definitions bear a meaning "In regulations 32 to 34" of these Regulations. However, the term "construction phase" is also used in regulation 31 of these Regulations but is not used at all in regulation 34. Therefore, it is unclear where the definition of this term applies in these Regulations. In addition, the terms "HRB design work" and "reporting person" are only used in regulation 32 rather than regulations "32 to 34". Therefore, it may be clearer for both of these definitions to appear in a separate interpretation provision for regulation 32.

13. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

Regulation 47(5) states that the Welsh Ministers must notify the appellant of the outcome "within 13 weeks beginning with the day after the day on which the person gives a notice under paragraph (2)". However, paragraph (2) outlines the persons who may appeal the decision in paragraph (1). Should regulation 47(5) refer to a different paragraph, for example, paragraph (3), rather than paragraph (2)?

14. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 49(3), it could be argued that it is not obvious for a reader that terms that are defined for the purposes of the whole of Part 6 would be found in regulation 49(3). It might more helpful to the reader if those terms were defined in a separate interpretation provision for Part 6. In addition, the definitions are not listed in alphabetical order in the English text of regulation 49(3).

15. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In Schedule 1, in paragraph 5(1)(d), it refers to "Schedule 1 of the Building Regulations 2010". However, the Building Regulations 2010 were defined as "the 2010 Regulations" by regulation 2(1) of these Regulations. Therefore, the defined term "the 2010 Regulations" should have been used in this reference in Schedule 1.

16. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In Schedule 2, in paragraph 3, the term "fixed building service" is defined for Schedule 2. However, the term is also used in other provisions such as regulations 37(5), 38(7), and 46(12) of these Regulations. Therefore, it is unclear whether the intention is for the term "fixed building service" to bear the same meaning in these other provisions of the Regulations as well.

Merits Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

Welsh Government response

A Welsh Government response is required.

Legal Advisers
Legislation, Justice and Constitution Committee
21 January 2026

SL(6)708 – The Building etc. (Amendment) (No. 2) (Wales) Regulations 2025

Background and Purpose

These Regulations amend the Building Regulations 2010 and other related secondary legislation in Wales to implement provisions of Part 3 of the Building Safety Act 2022. The amendments introduce new procedural requirements, clarify duties and competencies of dutyholders, establish mechanisms for enforcement and appeals in relation to building control, and provide transitional arrangements for work commenced or approved prior to the coming into force date.

These Regulations also make minor, unrelated amendments to the Building Regulations 2010 and consequential amendments to other statutory instruments.

Part 2 (regulations 2-15) of these Regulations amend the Building Regulations 2010.

Part 3 (regulations 16-18) of these Regulations amend the following secondary legislation:

- The Building (Local Authority Charges) Regulations 2010;
- The Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024;
- The Building (Restricted Activities and Functions) (Wales) Regulations 2024.

Part 4 (regulations 19-22) of these Regulations make transitional, supplementary and saving provisions.

Procedure

Negative.

The Regulations were made by the Welsh Ministers before they were laid before the Senedd. The Senedd can annul the Regulations within 40 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date they were laid before the Senedd.

Technical Scrutiny

The following 23 points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

1. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 6(11)(a), in the new regulation 27(3)(b), it notes "not later than **five days**". However, many of the other amendments that are made to the 2010 Regulations refer to periods of time that are described as "working days" such as the amendment made by

regulation 6(5)(c). In addition, figures rather than words have been used to express periods of days elsewhere in the amendments. Therefore, should it refer to "not later than **5 working days**" in this amendment as well? This also occurs in the new regulation 16(2A) inserted by regulation 9(1)(d) of these Regulations where it refers to "Not more than 5 days…".

2. **Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements**

In regulation 6(13)(a), in the new regulation 27B(2)(b), it incorrectly refers to the matters set out in "paragraphs **(1)** to (iii) of sub-paragraph (a)". However, it should be referred to by using a Roman rather than an Arabic numeral as "paragraphs **(i)** to (iii) of sub-paragraph (a)". Otherwise it could be interpreted as referring to paragraph (1) of regulation 27B.

3. **Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

In regulation 6(13)(a), in the new regulation 27B(3)(b), the reference to the matters mentioned "in sub-paragraphs (aa) to (cc)" is incomplete because it does not note that they are found in sub-paragraph (a)(i) of regulation 27B(3). Therefore, it should refer to the matters mentioned "in sub-paragraphs (aa) to (cc**) of sub-paragraph (a)(i)**" (for a correct example, see the new regulation 27C(3)(b) inserted by regulation 6(14)(a) of these Regulations).

4. **Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements**

In regulation 6(14)(a), in the new regulation 27C(2)(b), it incorrectly refers to the matters set out in "**paragraphs (i) to (iii)** of sub-paragraph (a)". However, there is no paragraph (iii) in sub-paragraph (a). Therefore, it should refer to the matters set out in "**paragraphs (i) and (ii)** of sub-paragraph (a)".

5. **Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements**

In regulation 16(2)(a), in the new definition of "local authority" that is inserted in regulation 2 of the Building (Local Authority Charges) Regulations 2010, it refers to "section 91ZD of **the 1984 Act**". However, the Building Act 1984 has been defined as "the Act" by regulation 2 of those Regulations. Therefore, the new definition fails to use the correct definition of the Building Act 1984. It is also inconsistent with the other new textual amendments made to the Building (Local Authority Charges) Regulations 2010 which have used the correct definition.

6. **Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements**

In regulation 16(7)(b), in the new text that replaces some of the existing text in regulation 14(1) of the Building (Local Authority Charges) Regulations 2010, it refers to "regulation 14E of **the Building Regulations 2010**". However, the Building Regulations 2010 have been

defined as "**the Principal Regulations**" by regulation 2 of the Building (Local Authority Charges) Regulations 2010. Therefore, the new textual amendment fails to use the correct definition of the Building Regulations 2010. It is also inconsistent with the other new textual amendments made to the Building (Local Authority Charges) Regulations 2010 which have used the correct definition.

7. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 17(4), in the new regulation 6A(1) that is inserted into the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024 it refers to "higher-risk building work". In addition, there is a related footnote that explains that the definition of "higher-risk building work" is found in section 120I(3) of the Building Act 1984. However, it is not possible to define a term by means of a non-operative part of a statutory instrument such as a footnote. Also, the Legislation (Wales) Act 2019 does not contain a provision corresponding to section 11 of the Interpretation Act 1978, which provides that expressions used in subordinate legislation have the meaning which they bear in the Act under which the subordinate legislation is made. A Welsh subordinate instrument should include express provision wherever the intention is to attract meanings from the parent legislation. A definition of "higher-risk building work" should be inserted in the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024 if it is intended to bear the same meaning as given by the Building Act 1984.

8. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements

In regulation 17(6), in the new regulations 13A(7)(d) and 13B(1) that are inserted in the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024, there are references to "**the Act**" when appearing to refer to the Building Act 1984. However, the Building Act 1984 has been defined as "**the 1984 Act**" by regulation 2 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024. Therefore, these new textual amendments fail to use the correct definition of the Building Act 1984. They are also inconsistent with the other textual amendments made to the Building (Local Authority Charges) Regulations 2010 which have used the correct definition such as the new regulation 6A(4) inserted by regulation 17(4) of these Regulations.

9. Standing Order 21.2(vii) - that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In regulation 17(10)(c), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, the amendment fails to correctly identify the existing text for substitution in regulation 37 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024. It identifies the text as "section 35 of **the Act (penalty for contravening building regulations)** does not apply". However, the existing text notes "section 35 of **the 1984 Act** does not apply" in regulation 37 of the 2024 Regulations. The Welsh text does

correctly identify the existing text for substitution which is found in regulation 37 of those Regulations.

10. Standing Order 21.2(vii) - that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In regulation 17(11), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, the amendment is incorrect because the words "substitute" and "for" are in the wrong order. Therefore, it notes "**substitute** "Parts 2 - 5" **for** "Parts 1-6"" in regulation 42(1) of Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024. But it should note "**for** "Parts 2 - 5" **substitute** "Parts 1-6"" because "Parts 2 to 5" is the existing text in regulation 42(1) and the new text that will replace it is "Parts 1 -6". The amendment is correctly described in the Welsh text. The same error and difference between the English and Welsh text also occurs in the amendment made by regulation 17(12)(a) of these Regulations.

11. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 17(12)(b), it could be argued that the words "after form 5(W)" should appear at the beginning of the description in both language texts. In addition, the amendment would be clearer if some additional words such as "set out" were included after "form 6(W)". Otherwise, the amendment could be read as instructing that Form 6(W) is to be inserted in the Schedule to these new Regulations.

12. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 17(13)(a), in the new paragraph 6(d) that is inserted in Schedule 2 to the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024, it refers to "the client's assessment of when **building control oversight** is required". However, it also refers to "when the client considers **building control input** is required" in the new paragraph 13 that is inserted in that Schedule to the 2024 Regulations by regulation 17(13)(c) of these Regulations. In addition, the term "building control input" is also used in the new regulation 13B(4) inserted by regulation 17(6) of these Regulations. Therefore, could the Welsh Government confirm whether the use of the term "building control oversight" is correct in the new paragraph 6(d) or whether it should note "building control input"? The same issue arises in the Schedule, in the new Form 1(W), paragraph 4(c)(ii), Form 2(W), paragraph 3(e)(ii), and Form 4(W), paragraph 4(c)(ii), where the term "building control oversight" has also been used.

13. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 17(13)(c), in the new paragraph 13, the term "may" rather than "can" should be used if the paragraph is conferring discretionary legal power on the local authority to reject the building control input rather than only expressing possibility.

14. Standing Order 21.2(vii) - that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In regulation 18(2)(a), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, the words ", a power in—" are noted at the end of the new text that will replace some of the existing text in regulation 3(2)(b) of the Building (Restricted Activities and Functions) (Wales) Regulations 2024. But in the Welsh text, the meaning of those words is not included at the end of the new text that replaces the existing text. However, it appears that the English text is incorrect because the words ", a power in-" aren't noted as part of the existing text for replacement. Therefore, the effect of the textual amendment made by the English text is that those words will appear twice at the end of the amended text so that it will read as "a power in- a power in-" which doesn't make sense.

15. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In the heading of regulation 19, it refers to "the Building Regulations 2010" but those Regulations have been defined as "the 2010 Regulations". It is also inconsistent with the body of the text in regulation 19 where the defined term "the 2010 Regulations" has been used.

16. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 19(b)(i), there is a reference to "section 16 of the Act" when the term "the Act" appears to be referring to the Building Act 1984. However, the term "the Act" has not been defined as the Building Act 1984 for the purpose of this regulation or in these Regulations. In addition, it is also inconsistent with the transitional provisions of regulations 21 and 22 where the title of that Act has been noted in full in the references.

17. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 19, the terms "building work" and "building notice" are used which are terms that have been defined with a meaning in the Building Regulations 2010. However, those terms have not been defined with the same meaning for the purpose of that regulation in these Regulations.

18. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In regulation 21, the term "building notice" is also used which is a term that has been defined with a meaning in the Building Act 1984. Likewise, the terms "initial notice", "plans", and "plans certificate" are used in regulation 22 which are also terms that are defined in that Act. However, the only term that is defined with a meaning for either regulation 21 or 22 is "plans certificate" which is defined with a meaning for regulation 22. It would appear that all of the terms that are defined by the Building Act 1984 and that are also used in regulations

21 and 22 should be defined for the purposes of those regulations. Additionally, it appears to be an inconsistent approach to define some of those terms such as "plans certificate" but not all of them.

19. Standing Order 21.2(vii) - that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In the Schedule, in the new Form 5(W), in paragraph 2, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "and the work **described** above was" but the meaning given by the Welsh text is "and the work above was".

20. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In the Schedule, in the new Form 5(W), in paragraphs 9 and 10, in the Welsh text, "it" has been expressed by using "ei fod" when referring to "(2)". However, the phrase "ei fod neu ei bod" has been used elsewhere in the Welsh text of this Form on each occasion when referring to "(2)". Therefore, these paragraphs are inconsistent with the approach that has been taken elsewhere in the Welsh text of this Form and in the other Forms.

21. Standing Order 21.2(vii) - that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In the Schedule, in the new Form 5(W), in paragraph 13, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "specified" but it could be argued that the meaning given by the Welsh text is "noted" ("nodwyd"). The word "pennu" is a clearer term for "specify".

22. Standing Order 21.2(vii) - that there appear to be inconsistencies between the meaning of its English and Welsh texts.

In the Schedule, in the new Form 6(W), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, in the heading of the Form, the title of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024 is defined as "(the 2024 Regulations)". However, there is no corresponding definition to "("the 2024 Regulations")" in the Welsh text of the heading of that Form.

23. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.

In the Schedule, in the new Form 1(W), paragraph 4(a), Form 2(W), paragraph 3(c) and Form 4(W), paragraph 4(a), terms such as "cesspool", "sewer" and "private sewer" have been used which are defined with a meaning in the Building Act 1984. However, they have not been defined in the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024 or in these Forms. It appears that these terms should be defined in the 2024 Regulations or in these Forms if they are intended to bear the same meaning as given by the Building Act 1984.

Merits Scrutiny

The following point is identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

24. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd

Paragraph 2.1 of the Explanatory Memorandum (Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee) states as follows:

> *"Further to the LJCC report in relation to the Building etc. (Amendment) (Wales) Regulations 2025 (SL(6)606)*[1]*, we have amended the drafting to regulations 15 of these Regulations to address comments in the Technical Scrutiny points raised."*

Welsh Government response

A Welsh Government response is required in respect of reporting points 1 to 23.

Legal Advisers
Legislation, Justice and Constitution Committee
21 January 2026

[1] https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=45427

SL(6)715 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026

Cefndir a Diben

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('**Deddf 2016'**) yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 (**"y prif Reoliadau"**) yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys ceisiadau i gofrestru a cheisiadau i amrywio cofrestriad o dan Ddeddf 2016.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026 ("**Rheoliadau 2026**") yn diwygio'r prif Reoliadau i roi effaith i newidiadau a gyflwynir gan adran 6A(1) o Ddeddf 2016, sy'n cyfyngu ar ddarparu gwasanaethau plant penodol i awdurdodau lleol ac endidau nid-er-elw. Mae'r gwasanaethau hyn, y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel "**gwasanaethau plant o dan gyfyngiad**", yn cynnwys gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu.

Effaith arfaethedig y diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2026 yw sicrhau bod ceisiadau i gofrestru, neu i amrywio cofrestriad mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i ddangos cydymffurfedd â'r gofyniad statudol bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu gan endidau nid-er-elw.

Gweithdrefn

Gweithdrefn Annilysu'r Senedd

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 3 yn datgan bod y prif Reoliadau wedi'u diwygio yn unol â rheoliadau 4 i **10** o Reoliadau 2026. Mae'r testun Saesneg yn cynnwys dim ond **9** rheoliad. Mae'r testun Cymraeg yn cynnwys 10 rheoliad.

O ganlyniad, mae anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Fodd bynnag, yn fwy sylfaenol, effaith hepgor rheoliad 10 yn y testun Saesneg yw nad yw paragraff newydd 7A o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau wedi'i fewnosod. O ganlyniad, mae darpariaethau eraill sy'n dibynnu ar baragraff newydd 7A o Atodlen 1 (megis rheoliadau newydd 3B ac 11A o'r prif Reoliadau) yn ddiffygiol.

Yn ei dro, mae'r Nodyn Esboniadol yn anghywir gan ei fod yn nodi bod rheoliadau 8 a 9 yn mewnosod rheoliadau newydd 14 a 15 yn y prif Reoliadau, a bod rheoliad 10 yn diwygio Atodlen 1. Mewn gwirionedd, fel y'i drafftiwyd, rheoliad 8 yn unig sy'n mewnosod rheoliadau 14 a 15, mae rheoliad 9 yn diwygio Atodlen 1 ac mae rheoliad 10 wedi'i hepgor yn anghywir.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 6 yn mewnosod rheoliad newydd 11A yn y prif Reoliadau. Mae'n datgan:

> **11A.** Rhaid i gais i amrywio cofrestriad a wneir yn unol ag adran 6C a pharagraff 4 o Atodlen 1A gynnwys yr wybodaeth a restrir ym mharagraffau 7 a 7A o Atodlen 1.

Mae hyn yn ddryslyd i'r darllenydd gan fod y ddwy Atodlen hyn mewn deddfwriaeth ar wahân. Mae Atodlen 1A yn cyfeirio at Atodlen 1A i Ddeddf 2016, ac mae Atodlen 1 yn cyfeirio at Atodlen 1 i'r prif Reoliadau. Byddai'n llawer cliriach pe bai geiriau fel 'i'r Ddeddf' neu 'i'r Rheoliadau hyn' yn cael eu hychwanegu. Nodwn y byddai hyn yn cyd-fynd â'r dull yn rheoliad 4(a)(iv).

3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 8 yn mewnosod rheoliad newydd 14 yn y prif Reoliadau. Mae hyn yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth ei darparu mewn cais i ganslo ei gofrestriad. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad o ddau bwynt mewn perthynas â rheoliad newydd 14.

O dan reoliad newydd 14(a), rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys y dyddiad arfaethedig y dylai'r canslo gymryd effaith.

Y ddarpariaeth sylweddol sy'n llywodraethu canslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth yw adran 14 o Ddeddf 2016. Mae'n darparu i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o ganiatáu cais i ganslo i'r darparwr gwasanaeth, ac yn darparu bod canslo o'r fath yn cymryd effaith ar y diwrnod sy'n 3 mis ar ôl cael yr hysbysiad, neu ddyddiad cynharach a bennir yn yr hysbysiad.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut y bydd rheoliad newydd 14(a) o'r prif Reoliadau yn gweithio ar y cyd ag adran 14(3) o Ddeddf 2016. Yn benodol, o dan ba amgylchiadau y bydd adran 14(3)(a) o Ddeddf 2016 yn gymwys yn ymarferol?

Yn ail, mae rheoliad newydd 14(d) yn nodi bod rhaid i gais canslo gynnwys "*manylion unrhyw hysbysiad a roddir ynghylch y bwriad i beidio â darparu'r gwasanaeth*". Ein dealltwriaeth mai bwriad hyn yw cwmpasu unrhyw hysbysiad a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth ynghylch

ei fwriad i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau. Os yw hyn yn gywir, rydym o'r farn y byddai'n gliriach nodi "[...] *manylion unrhyw hysbysiad a roddir gan y darparwr gwasanaeth ynghylch ei fwriad i beidio â darparu'r gwasanaeth* [...]"

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliad newydd 3B yn y prif Reoliadau. Mae hyn yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru hepgor gofynion gwybodaeth penodol pan fo ymgeisydd yn cymryd drosodd y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyfyngedig i blant o dan amgylchiadau penodol. Un o'r meini prawf ar gyfer yr hepgoriad yw bod Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol "*gan roi sylw i'r wybodaeth a gedwir gan Weinidogion Cymru am y darparwr presennol*" (tanlinelliad wedi'i ychwanegu).

O dan amgylchiadau o'r fath, pa asesiad a wneir o addasrwydd a chymhwysedd yr ymgeisydd i gymryd drosodd y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau gan ddarparwr gwasanaeth?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r holl bwyntiau adrodd.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
20 Ionawr 2026

Eitem 3.5

SL(6)704 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2026

Cefndir a Diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("Gorchymyn 2020") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, a fydd yn ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Fe'i lluniwyd ar y cyd gan y pedair llywodraeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu'r ETS ar y cyd fel Awdurdod ETS y DU ("yr Awdurdod"), sy'n cymryd lle cyfranogiad y DU yn ETS yr UE. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr i leihau allyriadau yng Nghymru.

Mae'r ETS yn cymell ymdrechion i ddatgarboneiddio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr brynu lwfansau, y mae'n rhaid iddynt eu monitro, adrodd arnynt a'u hildio. Mae'r ETS yn rhedeg am 10 mlynedd ac wedi'i rannu ar draws dau gyfnod dyrannu, sef 2021-2025, 2027-2030, ac un flwyddyn ar ei phen ei hun ar gyfer y cynllun (blwyddyn 2026 y cynllun). Yn ystod y cyfnodau hynny, mae rhai gweithredwyr yn gymwys i gael dyraniad lwfansau am ddim ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Yn 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod ynghylch "Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim". Dilynwyd hyn gan ymgynghoriad arall yn 2024 ynghylch "Dadleoli Carbon". Cafodd y penderfyniadau polisi terfynol yn Ymateb yr Awdurdod i'r ymgyngoriadau hyn eu datblygu'n unol â chyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd Mecanwaith Addasu Ffiniau Carbon y DU (CBAM y DU) yn cael ei gyflwyno yn 2027. Maent hefyd yn adlewyrchu'r cytundeb rhwng y DU a'r UE i weithio tuag at gysylltu ETS y DU ac ETS yr UE. Mae'r diwygiadau arfaethedig sydd i'w gwneud gan y Gorchymyn hwn yn ymgorffori'r rhain yn neddfwriaeth yr ETS ar sail pedair gwlad.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 (y "Rheoliad Dyraniadau am Ddim") i wneud tri phrif newid i'r cyfrifiad o ddyraniadau am ddim ar gyfer y cyfnod dyrannu 2027-2030. Er mwyn gweithredu'r prif newidiadau hyn ar draws ETS y DU, caiff Gorchymyn 2020 a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842 eu diwygio hefyd.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae erthygl 19(8) o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Erthygl 16 o'r Rheoliad Dyraniadau am Ddim (2019/331). Nod y Gorchymyn yw mewnosod testun ym mrawddeg gyntaf paragraff 5, ar ôl yr ymadrodd "*for the relevant period*". Fodd bynnag, nid yw'r ymadrodd hwn yn ymddangos ym mrawddeg gyntaf paragraff 5. Yr ymadroddion "*relevant baseline periods*" a "*relevant allocation period*" sy'n ymddangos. Mae angen eglurhad pellach ynghylch ym mha le y dylid mewnosod y testun y cyfeirir ato yn erthygl 19(8)(a).

2. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Nodwn fod paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"Gan y bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddarostyngedig i graffu seneddol gan y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud neu ei osod yn ddwyieithog."*

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd cyntaf.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
14 Ionawr 2026

SL(6)714 – Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), a wnaed o dan adran 10 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Maent hefyd yn gwneud mân ddiwygiad i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019, sy'n codi o newidiadau i adran 48 o Ddeddf 2016 a gyflwynwyd gan adran 14(3)(c) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ("Deddf 2025").

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2017 yn adlewyrchu darpariaethau a fewnosodwyd yn Neddf 2016 gan Ddeddf 2025 ynghylch rheoleiddio "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad". Mae'r term hwn wedi ei ddiffinio yn adran 2A o Ddeddf 2016. Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd 6A yn Rheoliadau 2017. Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau (heblaw awdurdodau lleol) sy'n darparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad gynnwys yn eu datganiad blynyddol ddatganiad sy'n cadarnhau eu bod yn parhau i fodloni'r gofyniad yn adran 6A(1) o Ddeddf 2016.

Mae adran 6A(1) o Ddeddf 2016 yn darparu na chaniateir i berson nad yw'n awdurdod lleol ond cael ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad os yw'n endid nid-er-elw. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau sy'n esempt rhag adran 6A yn rhinwedd paragraff 2(4) o Atodlen 1A i Ddeddf 2016. Yn unol â hynny, adlewyrchir y sefyllfa hon ym mharagraff (2) o reoliad 6A.

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 10 o Reoliadau 2017 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyhoeddi eu datganiadau blynyddol ar eu gwefannau. Yn ogystal â'r rhwymedigaeth bresennol i gyflwyno datganiadau blynyddol o fewn amserlen benodol, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau bellach sicrhau bod y datganiad blynyddol ar gael i'r cyhoedd ar eu gwefan o fewn 91 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Mae rheoliad 3 yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 4 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid a wnaed gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 i bennawd adran 48 o Ddeddf 2016, sydd bellach yn cyfeirio at gyhoeddi, yn ogystal â chyflwyno, datganiadau blynyddol.

Gweithdrefn

Gweithdrefn Gymeradwyo'r Senedd

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi bod y rheoliadau hyn wedi'u gosod gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a'u bod yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

Nid yw un o'r pwerau galluogi y dibynnir arnynt, adran 10(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016, mewn grym eto. Mewnosodwyd adran 10(1)(b) gan adran 14(2)(a) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025. Mae Erthygl 3(2)(a) o Orchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2025 yn darparu bod adran 14 (ac eithrio adran 14(2)(c)) yn dod i rym ar **1 Ebrill 2026,** yr un dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Mae adran 16 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu y caniateir arfer pŵer o dan ddarpariaethau is-offerynnau cyn i'r darpariaethau hynny ddod i rym.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
20 Ionawr 2026

SL(6)719 - Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Deddf Rheoleiddio acArolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") mewn perthynas â gweithredu o ran Cymru ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn:

(a) y cytundeb masnach rydd rhwng Gwlad yr Iâ, Tywysogaeth Liechtenstein a Theyrnas Norwy a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a wnaed yn Llundain ar 8 Gorffennaf 2021 ("cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA"), a
(b) y Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Chydffederasiwn y Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol a wnaed yn Llundain ar 14 Mehefin 2023 ("Cytundeb y Swistir").

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Deddf 2016 i roi effaith, o fewn y fframwaith a sefydlwyd ar gyfer rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, i'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi'u cynnwys yng nghytundeb masnach rydd AEE EFTA a Chytundeb y Swistir.

Gweithdrefn

Cymeradwyo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 3 yn mewnosod amryw o dermau diffiniedig i Ddeddf 2016. Mae'r diffiniad o "cyfnod ymaddasu" yn cynnwys cyfeiriad at "ymarfer dan oruchwyliaeth", ond nid yw hwn yn derm a ddiffinnir yn Neddf 2016 nac yn unman arall yn y Rheoliadau. Gofynnir i Lywodraeth

Cymru gadarnhau beth sy'n cyfrif fel "ymarfer dan oruchwyliaeth" ac egluro pam nad yw hyn wedi'i nodi'n benodol.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 12 yn mewnosod darpariaeth i Ddeddf 2016 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cofrestrydd roi hysbysiad o benderfyniad mewn perthynas â chofrestru neu adnewyddu gan ymgeisydd gwladwriaeth benodedig (fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau) o fewn pedwar mis ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y cais. Mae'r gwelliant yn mynd ymlaen i ddweud, os yw'r cofrestrydd yn methu â rhoi hysbysiad o benderfyniad o fewn y cyfnod hwnnw, bod y methiant hwnnw i'w drin fel penderfyniad gan y cofrestrydd. Nid yw'n glir a fyddai'r cais yn cael ei gymeradwyo neu ei wrthod oherwydd methiant o'r fath, a gwahoddir Llywodraeth Cymru i roi esboniad pellach yn hyn o beth.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
20 Ionawr 2026

SL(6)711 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2025

Cefndir a Diben

Y Rheoliadau hyn yw'r chweched rheoliadau cychwyn sydd wedi eu gwneud o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol yn Rhan 3 (diwygio Deddf Adeiladu 1984) o'r Ddeddf, ac Atodlen 5 iddi, ar 1 Gorffennaf 2026 o ran Cymru.

Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Mae testun Saesneg y Rheoliadau yn dod â darpariaethau Rhan 3 o'r Ddeddf, ac Atodlen 5 iddi, i rym ar 1 Gorffennaf 2026 o ran Cymru. Fodd bynnag, mae testun Cymraeg y Rheoliadau yn dangos XXXX yn lle 1 Gorffennaf 2026 ym mhob lle y mae'n digwydd.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
15 Ionawr 2026

SL(6)712 – Gorchymyn Deddf Adeiladu 1984 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025

Cefndir a Diben

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf sydd wedi'i wneud o dan Ddeddf Adeiladu 1984 ("y Ddeddf") o ran Cymru yn unig. Fodd bynnag, mae dau orchymyn cychwyn cyn datganoli diogelwch adeiladau i Gymru wedi dwyn darpariaethau yn y Ddeddf i rym o ran Cymru a Lloegr.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym adran 33 o'r Ddeddf o ran Cymru. Mae adran 33 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phrofi a samplu at ddiben canfod a dorrwyd unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau adeiladu neu a ellid torri unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau adeiladu.

Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Mae testun Saesneg y Gorchymyn yn dwyn adran 33 o'r Ddeddf i rym ar 1 Gorffennaf 2026 o ran Cymru. Fodd bynnag, mae testun Cymraeg y Gorchymyn yn dangos XXXX yn lle 1 Gorffennaf 2026 ym mhob lle y mae'n digwydd.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
15 Ionawr 2026

Eitem 5.1

SL(6)703 – Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026

Cefndir a diben

Mae Adran 24A o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru (“ACC”) gadw cyfrif o elw ardoll ymwelwyr a gesglir ar gyfer pob prif gyngor sydd wedi cyflwyno’r ardoll ymwelwyr yn ei ardal. Yna, rhaid i'r ACC dalu'r elw i'r cyngor perthnasol ar ôl i'r ACC ddidynnu costau arfer ei swyddogaethau ardoll ymwelwyr ar gyfer yr ardal honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfyngu'r didyniad a ganiateir i 10% o elw'r ardoll ymwelwyr. Mae'r Rheoliadau, hefyd, yn cynnwys mecanwaith lle mae'r didyniad yn cael ei gyfyngu ymhellach pe bai'n arwain at ACC yn didynnu symiau sy'n fwy na chyfanswm ei gostau gweithredu ardoll ymwelwyr.

Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y Rheoliadau hyn, mae'r term “ardoll ymwelwyr” wedi cael ei ddefnyddio sawl gwaith ond nid yw wedi'i ddiffinio. Mae'n derm wedi'i ddiffinio yn adran 192(2) o Ddeddf 2016, lle rhoddwyd yr un ystyr iddo ag yn Rhan 3 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.

Nid yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys darpariaeth sy’n cyfateb i adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978, sy’n darparu bod gan ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr ystyr sydd ganddynt yn y Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth oddi tani.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru, felly, i egluro pam nad oes diffiniad o ‘ardoll ymwelwyr’ yn ymddangos yn y Rheoliadau hyn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 2 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

O dan adran 25(3) o Ddeddf 2016, rhaid i ACC dalu i Gronfa Gyfunol Cymru symiau a ddidynnwyd, mewn perthynas â'i gostau, o elw'r ardoll ymwelwyr. Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfynau rhagnodedig ar swm y didyniadau hynny.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 3.1 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn tynnu sylw'r Pwyllgor at y datganiad canlynol:

> *"Mae'r offeryn hwn wedi ei lunio heb ddefnyddio'r feddalwedd newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymru. Mae'n bosibl felly y bydd angen gwneud mân welliannau i'r fformadu yn ystod y broses gofrestru os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo gan y Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru."*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026*

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd, fodd bynnag, nid yw'n cytuno ag ef.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 24A(5)(a) a (b) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Eu pwrpas yw cyfyngu ar y swm y gall Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") ei ddidynnu o enillion yr ardoll ymwelwyr mewn cysylltiad â'i gostau a'i alldaliadau.

Nid yw rheoliadau a wneir o dan adran 24A(5) o Ddeddf 2016 ond yn berthnasol pan fo prif gyngor wedi cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn ei ardal. Dim ond o dan Ran 3 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf 2025") y gall prif gyngor wneud hynny. Yn yr un modd, dim ond os yw ACC yn casglu'r ardoll ymwelwyr ar ran prif gyngor sydd wedi ei chyflwyno o dan Ran 3 o Ddeddf 2025 y gellir didynnu costau ac alldaliadau (ac mae'r didyniad hwnnw wedi ei gyfyngu gan reoliadau o dan adran 24A(5) o Ddeddf 2016).

Fel y nodir yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, diffinnir y term ardoll ymwelwyr yn adran 192(2) o Ddeddf 2016 a rhoddir yr un ystyr iddo ag yn Rhan 3 o Ddeddf 2025.

Mae hyn yn golygu mai unig ystyr y cyfeiriadau at *ardoll ymwelwyr* yn y Rheoliadau hyn yw ardoll ymwelwyr a gyflwynir gan brif gyngor o dan Ran 3 o Ddeddf 2025 oherwydd ni all y term yn y cyd-destun hwn fod ag unrhyw ystyr arall.

Mae paragraff 4.2(2) o Drafftio Deddfau i Gymru yn datgan "*Ni ddylid cynnwys diffiniad oni fydd yn helpu eglurder neu sicrwydd. Os bwriedir i derm gyfleu ei ystyr cyffredin yn y geiriadur yn y Ddeddf, neu os yw'n amlwg o'r cyd-destun at beth y mae'r term yn cyfeirio, ni ddylai fod angen diffiniad...*"

Ni ddiffiniwyd y term *ardoll ymwelwyr* yn y Rheoliadau ar y sail ei bod yn amlwg o'r cyd-destun at beth yr oedd y term yn cyfeirio ac mae Llywodraeth Cymru yn cynnal y safbwynt hwnnw.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghymru**
DYDDIAD	**16 Ionawr 2026**
GAN	**Y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS**

Roeddwn yn falch o groesawu arweinwyr gwleidyddol i Gymru ar gyfer 44ain cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd ym Mro Morgannwg ar 4 a 5 Rhagfyr. Thema'r uwchgynhadledd hon oedd ‘Dyfodol Creadigol: Datgloi potensial y diwydiannau creadigol ar draws yr ynysoedd hyn’. O ystyried thema'r uwchgynhadledd, ymunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol â mi yn yr uwchgynhadledd. Ar ôl y cyfarfod, cyhoeddwyd datganiad ar y cyd sydd ar gael yma.

Rhoddodd yr uwchgynhadledd hon gyfle i arddangos arloesedd a chynhyrchu o'r radd flaenaf yng Nghymru yn sectorau'r diwydiannau creadigol, gan gynnwys cynrychiolaeth o'r sgrin (Bad Wolf Productions; Ruth Jones), cerddoriaeth (Nancy Williams a Harry Nolan-Hampson; Quartet Draig), digidol (Rarebit Studios; Rocket Science; Wales Interactive) a chyhoeddi (yr Athro Mererid Hopwood).

Cadeiriais sesiwn lawn yr uwchgynhadledd a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y sector sgrin. Rhoddodd y drafodaeth gyfle i rannu profiadau ar draws y llywodraethau a gynrychiolwyd, gan gydnabod bod y diwydiannau creadigol yn hanfodol i dwf economaidd, hunaniaeth ddiwylliannol, a dylanwad rhyngwladol tra'n cydnabod heriau fel cyllid, datblygu sgiliau, ansicrwydd cyflogaeth, trawsnewid digidol ac effaith deallusrwydd artiffisial.

Amlinellodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol y cynnydd diweddar yng Nghymru, gan dynnu sylw at gyflawniadau Cymru Greadigol, asiantaeth bwrpasol ein llywodraeth ar gyfer y diwydiannau creadigol. Ers ei lansio yn 2020, mae Cymru Greadigol wedi darparu cyllid pwrpasol ar gyfer cynhyrchu ac wedi cyflawni enillion economaidd sylweddol – dros £419 miliwn o fuddsoddiad o £33 miliwn. Mae mwy na 27,000 o bobl a mwy na 300 o gwmnïau wedi elwa o rownd gyntaf Cronfa Sgiliau Cymru Greadigol. Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at ein hymdrechion i hyrwyddo amrywiaeth drwy bartneriaethau a chynlluniau prentisiaeth a phwysleisiodd ein hymrwymiad i gydweithio i oresgyn rhwystrau cyffredin a datgloi twf. Yn ogystal, pwysleisiodd bwysigrwydd mynediad teg at gyllid ledled y DU, diwygio cyfundrefn treth sgrin y DU, a fframwaith rheoleiddio i

sicrhau cynaliadwyedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Wrth sôn am y newid cyflym ym mhatrymau'r defnydd o'r cyfryngau, nododd y Gweinidog fod Cymru'n arwain o ran mabwysiadu teledu sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd a nifer y fideos sy'n cael eu gwylio fesul diwrnod.

Rhoddodd y sesiwn lawn gyfle hefyd i fyfyrio ar y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf ar draws y llywodraethau a gynrychiolwyd a hefyd yn fyd-eang. Wrth agor y drafodaeth, nodais y cynnydd a wnaed yn y Dwyrain Canol ers y cyfarfod blaenorol tra'n cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau heddwch sefydlog a pharhaol ym Mhalesteina. Fodd bynnag, mynegais bryder am ddioddefaint parhaus pobl Wcráin a'r gelyniaeth gynyddol gan Rwsia tuag at Ewrop. Cefnogais gynnydd ar drafodaethau masnach yr UE/DU, sy'n arbennig o bwysig i Gymru o ystyried ein cyfran uchel o allforion i'r UE, a nodais bryderon am effaith tariffau'r Unol Daleithiau, sy'n effeithio ar Gymru yn fwy na rhannau eraill o'r DU oherwydd ein proffil allforio. Rhoddodd y drafodaeth gyfle pellach i mi groesawu'r cyhoeddiadau yng nghyllideb ddiweddar Llywodraeth y DU, gan gynnwys cefnogaeth i bobl ar incwm isel, codi'r cap budd-dal dau blentyn, a chynnydd yn yr isafswm cyflog a'r cyflog byw. Bydd y rhain oll o fudd i filoedd o bobl ledled Cymru. Yn ogystal â hyn, nodais y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU y bydd Cymru yn cynnal adweithyddion niwclear modiwlaidd bach cyntaf y DU, a dau barth twf deallusrwydd artiffisial.

Yn ogystal â'r drafodaeth lawn ffurfiol, galluogodd yr uwchgynhadledd ystod o drafodaethau dwyochrog ar draws y llywodraethau a gynrychiolwyd. Bydd Uwchgynhadledd nesaf y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Guernsey yn haf 2026.

Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/FM/0015/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu fy mod wedi cynnal a chadeirio 44ain cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd ym Mro Morgannwg ar 4 a 5 Rhagfyr.

Hoffwn dynnu eich sylw at fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd heddiw, ac i'r cyd-hysbysiad sy'n crynhoi canlyniadau'r uwchgynhadledd, sydd ar gael yma.

Thema'r uwchgynhadledd hon oedd 'Dyfodol Creadigol: Datgloi potensial y diwydiannau creadigol ar draws yr ynysoedd hyn'. O ystyried thema'r uwchgynhadledd, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol hefyd yn bresennol yn yr uwchgynhadledd.

Yn ystod yr uwchgynhadledd, cefais gyfle hefyd i gynnal cyfarfodydd dwyochrog â nifer o arweinwyr o aelod-weinyddiaethau eraill y Cyngor.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Eluned Morgan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate and Rural Affairs
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf i'ch hysbysu y cyhoeddwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) a Gweinidogion Cymru ar 14 Ionawr 2026. Mae ar gael i'w weld yma.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ymwneud â'r cyllid ar gyfer Ynni Lleol a Chymunedol yng Nghymru fel rhan o waith Great British Energy (GBE). Mae'n nodi egwyddorion ar gyfer cydweithio rhwng DESNZ a Gweinidogion Cymru ar gyfer buddsoddi hyd at £9.495 miliwn i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol a lleol yng Nghymru. Mae'n nodi:

- Nod y cyllid
- Yr amserlen ariannu
- Yr egwyddorion cydweithio
- Trefniadau llywodraethu a rheoli'r prosiect.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID-PO-022-26

Mike Hedges AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

20 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cael ei gynnal ar 5 Chwefror 2026. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i'r cyfarfod ganolbwyntio ar Blymio Dwfn Bioamrywiaeth, Strategaeth Bwyd Llywodraeth y DU, Adolygiad o Broffidioldeb Fferm Llywodraeth y DU, ymgysylltiad SPS a'r Gronfa Pysgota a Thwfn Arfordirol. Ar ôl y cyfarfod byddaf yn eich diweddaru ar drafodaethau a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yr eiddoch yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Ein cyf: HID/PO/033/26

Mike Hedges MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

22 Ionawr 2026

Annwyl Mike, Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-Sefydliadol i'ch hysbysu o gyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a gynhelir ar 26 Ionawr 2026. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar Gynllun Cartrefi Clyd Llywodraeth y DU. O ystyried ffocws y cyfarfod ar dai, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Derbyniwch fy ymddiheuriadau, os gwelwch yn dda, am y rhybudd byr a ddarparwyd. Cadarnhawyd amseriad y cyfarfod yr wythnos diwethaf. Byddaf yn rhoi diweddariad i chi ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig a Darpariaeth Arbed) (Diwygio) 2026**
DYDDIAD	**21 Ionawr 2026**
GAN	**Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno cael gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Seneddol, Swyddfa'r Cabinet arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig mewn perthynas â Chymru. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud yn benodol â chynnwys trefniadau trosiannol yn offeryn statudol Llywodraeth y DU, o'r enw Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) 2026.

Ceisiodd yr Ysgrifennydd Seneddol, Swyddfa'r Cabinet gytundeb i gynnwys Trefniadau Trosiannol yn Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) 2025 a fydd yn diwygio Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024 ("Rheoliadau 2024 y DU") i ymdrin â threfniadau trosiannol ar gyfer Contractau sy'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r Gyfundrefn Gaffael flaenorol (e.e. Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016).

Gan nad oes gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddiwygio'r darpariaethau cychwynnol a throsiannol hyn, mae angen cydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu yn y maes datganoledig hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod contractau a oedd yn dod o dan y drefn flaenorol yn parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU o dan y Cytundeb Economaidd a Masnachu Cynhwysfawr rhwng y DU ac India .

Mae Offeryn Statudol y DU hefyd yn cynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â chontractau sy'n dod o dan Ddeddf Caffael 2023. Bydd Gweinidogion Cymru yn gosod rheoliadau ar wahân i weithredu penodau caffael Cytundeb Economaidd a Masnach Gynhwysfawr (CETA) y DU ac India fel y maent yn gymwys yng Nghymru.

Gosodwyd Offeryn Statudol y DU gerbron Senedd y DU gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet ar 19 Ionawr 2026 ac roedd yr elfen sy'n ymwneud â Chontractau o dan y drefn gaffael flaenorol yn arfer y pŵer a roddwyd gan adran 127(2) o Ddeddf Caffael 2023, y gellir ond ei arfer gan Weinidog y Goron. Daw'r Offeryn Statudol i rym ar 30 Mawrth 2026.

Mae'r Rheoliadau ar gael yma: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig a Darpariaeth Arbed) (Diwygio) 2026

Rebecca Evans AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor am fy mwriad i gydsynio i Blair McDougall AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (y Gweinidog dros Fusnesau Bach a Thrawsnewid Economaidd) osod gerbron Senedd y DU, yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol, Offeryn Statudol (SI), sef Rheoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2026, a fydd yn diwygio Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009 ('y Rheoliadau') mewn meysydd datganoledig.

Trosodd y Rheoliadau Gyfarwyddeb Gwasanaethau'r UE 2006/123/EC, a oedd yn rhoi fframwaith o reolau ar gyfer y ffordd mae gweithgareddau gwasanaethau'n cael eu rheoleiddio yn y DU. Maent yn sicrhau bod cynlluniau awdurdodi (e.e. cynlluniau sy'n ymwneud â thrwyddedau y mae'n rhaid i fusnesau neu unigolion eu cael cyn darparu gwasanaeth) sy'n cael eu gweinyddu gan awdurdodau cymwys (e.e. awdurdodau lleol a rheoleiddwyr), yn gymesur, y gellir eu cyfiawnhau er budd y cyhoedd a'u bod yn cael eu cynnal mewn ffordd deg, hygyrch a thryloyw i fusnesau.

Pwrpas gwneud newidiadau wedi'u targedu i'r Rheoliadau yw gwneud cynlluniau awdurdodi yn fwy tryloyw, effeithlon a chost-effeithiol, a lleihau beichiau rheoleiddio i fusnesau wrth gefnogi agenda fasnach y DU ar yr un pryd. Yn gryno, mae'r diwygiadau a gynigir yn cynnwys chwe maes. Bydd pump ohonynt yn cael eu gweithredu gan yr OS ac un yn cael ei weithredu gan fesurau nad ydynt yn ddeddfwriaethol:

Diwygiadau i'w gweithredu gan yr OS:

a) Ehangu manteision y Rheoliadau Darparu Gwasanaethau i unrhyw un waeth beth fo'u cenedligrwydd neu eu sefydliad.
b) Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys gyflwyno gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol am drefniadau awdurdodiad dealledig, gan gynnwys pan nad yw awdurdodiad dealledig yn gymwys, i nodi'r rheswm er budd y cyhoedd dros beidio â'i gymhwyso.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

c) Ychwanegu gofyniad i awdurdodau cymwys sy'n rhedeg cynlluniau awdurdodi roi gwybod i ymgeiswyr am statws a chanlyniad eu cais.
d) Cynyddu hyblygrwydd y broses ymgeisio, er enghraifft, drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys dderbyn ceisiadau am drwydded drwy gydol y flwyddyn.
e) Eglurwch fod awdurdodau cymwys wedi'u gwahardd rhag codi ffioedd ar adeg y cais sy'n cynnwys costau rheoli a gorfodi'r cynllun awdurdodi'n barhaus.

Diwygiadau i'w gweithredu gan fesurau nad ydynt yn ddeddfwriaethol:

f) Ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol gael ei diweddaru ar yr offeryn ar-lein *Dod o hyd i Drwydded* a/neu wefan yr awdurdod cymwys, gan wneud y rhestr o'r wybodaeth sydd i'w darparu yn fwy cynhwysfawr. Nid yw'r diwygiad hwn wedi'i gynnwys yn yr OS gan fod opsiynau nad ydynt yn ddeddfwriaethol yn cael eu cynnig gan lywodraeth y DU i sicrhau bod gwybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol, megis cyhoeddi nodiadau atgoffa blynyddol i awdurdodau cymwys i'w hannog i wirio a diweddaru cynnwys a chynnal archwiliadau rheolaidd.

Mae Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn Meysydd Datganoledig yn dweud y dylai is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig gael ei gwneud gan Weinidogion Cymru pan fydd cymhwysedd gweithredol. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion yn mynd yn eu blaen i ddweud y, 'Gall sefyllfaoedd godi hefyd pan fyddai hi er budd gorau Cymru i ddarpariaeth ddeddfwriaethol ar ffurf is-ddeddfwriaeth a fyddai o fewn cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru gael ei gwneud gan Weinidogion Llywodraeth y DU, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Yn benodol, pan fydd deddfwriaeth y DU yn cwmpasu materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl, a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni amcanion polisi, efallai y bydd yn briodol i weinidogion Llywodraeth y DU weithredu.

Yn ogystal, mae cyfiawnhad clir dros gefnogi cydsyniad i Offeryn Statudol y DU:

a) Nid yw'r newidiadau hyn yn flaenoriaeth bolisi ac felly nid yw'n synhwyrol defnyddio adnoddau i wneud y ddeddfwriaeth ein hunain. Ni fyddai Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gwneud y newidiadau hyn o'i dewis ei hun o ystyried y buddion lleiaf y gellir disgwyl eu gwireddu.
b) Efallai y bydd y manteision i fusnesau yn fach, ond maent yn bodoli, a gallent gael effaith ar fusnesau bach drwy leddfu unrhyw anawsterau y gallai rhai eu hwynebu wrth wneud cais am awdurdodiadau gan awdurdodau cymwys.
c) Nid oes rheswm dros wrthwynebu'r newidiadau o safbwynt polisi.

O ganlyniad, mae'n synhwyrol caniatáu i lywodraeth y DU wneud y newidiadau arfaethedig mewn meysydd datganoledig fel y gall Cymru wireddu manteision bach i'n busnesau heb i Lywodraeth Cymru orfod defnyddio adnoddau i wneud y newidiadau.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ym mis Chwefror 2026 ac, os cânt eu cymeradwyo gan Senedd y DU, yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau cydredol yr Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 12(1), 14(2) a 20(1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, ac yn dod i rym ar 1 Hydref 2026.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA/HIDCC/0057/26

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio, yn yr achos hwn, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud a gosod Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2026.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan adran 36(1)(b) ac (c) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 ac adran 15 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Gedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Rheoliad y Cyngor (EU) 2020/123 sy'n pennu'r cyfleoedd ar gyfer 2020 i bysgota stociau pysgod a grwpiau o stociau pysgod penodol, sy'n gymwys i ddyfroedd yr Undeb ac, ar gyfer cychod pysgota'r Undeb, mewn dyfroedd penodol nad ydynt yn perthyn i'r Undeb.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud addasiadau i lefel draenogod y môr Ewropeaidd y caniateir ei ddal o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain, fel y nodir yn Erthygl 10(5) o Reoliad y Cyngor (EU) 2020/123, ar gyfer pysgodfeydd hamdden. Cynyddu nifer y pysgod y gellir eu cadw o ddau y dydd i dri. Mae'r Rheoliadau hefyd yn tynnu cŵn pigog wedi'u casglu o dros 100cm o'r rhestr o rywogaethau gwaharddedig a gynhwysir yn Erthygl 16 o Reoliad y Cyngor (EU) 2020/123.

Cytunwyd ar y newidiadau hyn yn ystod ymgynghoriadau pysgodfeydd diweddar yr UE yn y DU o dan fframwaith y cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Yn unol ag adran 40 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cysylltu â Gweinidogion Cymru a'r Alban, a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon am ganiatâd i wneud y Rheoliadau hyn.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel y DU. Pwrpas y Rheoliadau yw gwneud mân ddiwygiadau technegol i ddeddfwriaeth bresennol sy'n cael ei chymhwyso ledled y DU, er

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mwyn gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU sy'n codi o ganlyniad i Ymgynghoriadau Pysgodfeydd blynyddol y DU-UE. Mae dull y DU gyfan o wneud y diwygiadau yn sicrhau gweithredu amserol a pharhad polisi, gan gynnig tegwch i bysgotwyr ledled y DU.

Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn ac mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth na chafodd ei gwneud yn ddwyieithog.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 6 Ionawr.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Julie James AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor,Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

21 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

Ym mis Ebrill 2025 cyflwynais ddatganiad deddfwriaethol blynyddol y Llywodraeth yn nodi blwyddyn olaf ein rhaglen ddeddfwriaethol sylfaenol. Fel yr ydym wedi trafod o'r blaen, mae rhaglen sylweddol o is-ddeddfwriaeth yn eistedd ochr yn ochr â'n rhaglen ddeddfwriaethol sylfaenol ac yn sail iddi.

Er mwyn helpu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad i reoli ei lwyth gwaith rhwng nawr a diwedd y tymor, ysgrifennaf i roi rhybudd cynnar bod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno nifer sylweddol o eitemau o is-ddeddfwriaeth cyn Toriad y Pasg. Mae hyn yn cynnwys 34 o eitemau a fydd yn destun gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion barhau i gysylltu â thîm clercio'r Pwyllgor, i drafod yr uchod yn fanylach er mwyn hwyluso'r broses cyflawni.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 16

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon